# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymru Ryngwladol

Dydd Mercher 14 Gorffennaf 2021
12:30pm - 13:30pm

**Yn bresennol:**
Heledd Fychan AS, Cadeirydd
Rhun ap Iorwerth AS (Cyn Gadeirydd)
John Griffiths AS
Delyth Jewell AS

Heledd Roberts – Swyddfa Rhun ap Iorwerth AS

Sian Hollaran – Cydlynydd Rhyngwladol, Colegau Cymru
Rhiannon Hughes – Cyfarwyddwr Gwyliau, Gŵyl Ffilm Ieuenctid Wicked Wales
Claire O'Shea - Pennaeth Partneriaethau, Hub Cymru Affrica
Hayley Richards – Swyddog Eiriolaeth, Oxfam Cymru
David Anderson - Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Cymru

Dr Walter Ariel Brooks – Pennaeth Addysg, British Council Cymru
Alison Cummins – Rheolwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol, British Council Cymru
Natasha Nicholls – Pennaeth Celfyddydau, British Council Cymru
Rosa Bickerton – Rheolwr Prosiect, British Council Cymru
Maija Evans – Rheolwr Addysg, British Council Cymru
Rebecca Wignall – Rheolwr Celfyddydau, British Council Cymru
Calum O'Byrne Mulligan – Cynghorydd ar Faterion Gwleidyddol, British Council

**Ymddiheuriadau:**
Alun Davies AS
Darren Millar AS
Jenny Scott, British Council Cymru

1. **Croeso gan y Cyn-gadeirydd a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan gyn-gadeirydd y grŵp, Rhun ap Iorwerth.

Dywedodd Rhun ap Iorwerth (RI) ei fod am gamu i lawr fel cadeirydd a chafwyd pleidlais i ddewis cadeirydd newydd i'r grŵp ar gyfer y 6ed Senedd.

Enwebwyd Heledd Fychan AS (HF) gan RI, cynhaliwyd pleidlais, a dewiswyd HF fel cadeirydd newydd.

Cytunodd British Council Cymru i barhau i weithredu fel Ysgrifenyddiaeth y Grŵp.

Diolchodd RI i British Council Council am ei waith fel Ysgrifenyddiaeth y Grŵp yn ystod y 5ed Senedd.

Diolchodd HF i RI am ei waith fel Cadeirydd y Grŵp.

Cadarnhawyd mai'r canlynol fyddai aelodau'r grŵp:

Cadeirydd: Heledd Fychan AS

Rhun ap Iorwerth AS
Alun Davies AS
John Griffiths AS
Darren Millar AS

Jenny Scott – Ysgrifenyddiaeth, British Council Cymru

2. **Blaen Raglen Waith y Grŵp**

**Trafodwyd syniadau ar gyfer blaen raglen waith y grŵp a phenderfynwyd bwrw ymlaen gyda'r canlynol:**

- Ymholiad i gysylltiadau rhyngwladol Cymru
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Rhaglen Cyfnewidfa Dysgu Rhyngwladol newydd Cymru
- Addysg Ieithoedd Modern yng Nghymru
- Pwyllgor Argyfyngau Trychineb (DEC)

Croesewir awgrymiadau am faterion eraill i'w trafod – dylid danfon y rhain at: team.wales@britishcouncil.org

3. **Camau Gweithredu**

- HF i ysgrifennu at y Prif Weinidog ynglyn â chynllun Llywodraeth y Deyrnas Unedig i dorri cymorth dyngarol a Brechlyn y Bobl
- HF a British Council Cymru i gwrdd i drafod llunio'r blaen raglen waith
- HF i drafod sut y gall y grŵp ychwanegu gwerth i waith y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol gyda Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw, Delyth Jewell AS

**Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf, a gynhelir yn ystod tymor yr Hydref, yn cael ei anfon at aelodau'r grŵp unwaith y bydd y trefniadau wedi'u cadarnhau.**